Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Gwasanaethau Hamdden Cae'r Drindod**

**Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod**
**Heol Caerffili**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7XW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaethau Hamdden Cae'r Drindod

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Rheoli Gwasanaethau Hamdden Cae'r Drindod |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac mae pob ymgais i gyfathrebu'n cael ei gwerthfawrogi. Maent yn ddiogel ac yn hapus ac yn cael budd o'r sylw unigol y mae'r staff dibynadwy yn rhoi iddynt. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hyder i oresgyn heriau.

Mae gan yr aelodau o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'i rôl ac maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn llawn er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant personol y plant. Maent yn meithrin cydberthnasau hynod o gadarnhaol â'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u hanghenion. Maent yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant i gyd drwy eu gwybodaeth a thrwy ddarparu lleoliad magwrus, sy'n cael ei arwain gan y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae amrywiaeth o leoedd sy'n diwallu anghenion y plant sy'n mynychu yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant er mwyn meithrin datblygiad cyffredinol y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth ragorol ac maent yn rhedeg lleoliad effeithiol sydd wedi'i drefnu'n dda.  Maent wedi adeiladu tîm llwyddiannus iawn sy'n cydweithio'n eithriadol o dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal cysylltiadau rhagweithiol ag asiantaethau allanol.  Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae llais y plant wrth wraidd y lleoliad. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt am eu bod yn cael eu hannog i fynegi eu hunain drwy ddefnyddio eu dewis ddull o gyfathrebu. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio cardiau gweledol i gyfathrebu'r gweithgareddau yr hoffent eu cwblhau. Mae'r plant yn symud yn ddidrafferth rhwng gwahanol weithgareddau. Mae rhai o'r plant yn dewis cymryd rhan mewn tasg megis crefft tra bo eraill yn chwarae'n annibynnol. O ganlyniad, caiff ddewisiadau'r plant eu parchu'n llwyr.

Mae’r plant yn teimlo'n hapus iawn ac yn hynod o ddiogel yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr, gan gyrraedd y lleoliad gyda gwên ar eu hwynebau wrth i'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt ac y maent yn ymddiried ynddynt, eu cyfarch. Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn am fod y staff yn eu hadnabod yn dda iawn ac yn dangos diddordeb gwirioneddol ynddynt. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff ac yn dysgu sut i ymateb i'w cyfoedion ac i ymwelwyr gyda chymorth gan y staff. Wrth gyrraedd yn y bore, cawsom ein cyfarch gan y plant ar ôl i'r staff esbonio iddynt pam roeddem yn ymweld â'r gwasanaeth. Mae rhai o'r plant yn rhyngweithio drwy ddefnyddio dulliau amgen megis cyfathrebu ategol. Mae'r dulliau hyn yn cefnogi cyfathrebu'r plant drwy ddefnyddio geiriau ac iaith arwyddion neu luniau a symbolau er mwyn cefnogi eu cyfathrebu. Mae'r plant yn cael budd o'r cydberthnasau cryf â'r staff sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r plant wir yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu, ac mae llawer ohonynt yn hunan-gymell yn y gweithgareddau maent yn eu dewis. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys trampolinau, ystafelloedd synhwyraidd, a chwarae meddal. O ganlyniad, mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn treulio eu hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu annibyniaeth. Cânt eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis golchi eu dwylo pan fo hynny'n briodol a chymryd cyfrifoldeb am eu heiddo. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i geisio gwneud pethau yn annibynnol cyn i'r staff ymyrryd i gynnig cymorth. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan gael gafael ar adnoddau i gefnogi eu diddordebau.

## Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant y plant yn llwyr. Maent yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r plant yn dilyn cynlluniau cadarn i gefnogi cyflyrau meddygol y plant, er nad oedd unrhyw feddyginiaeth wedi'i rhoi ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo o'r ysgol fel y bo'n briodol, ac mae llawer o'r staff yn gyfarwydd ag anghenion y plant o weithio gyda nhw yn yr ysgol. Caiff y staff hyfforddiant penodol i weithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill megis nyrsys, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Mae'r staff yn hyrwyddo llesiant corfforol y plant yn llwyddiannus drwy ymarfer corff rheolaidd, megis mynd am dro a chwarae yn yr awyr agored. Mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant ateb cwestiynau am weithdrefnau diogelu yn hyderus ac roeddent yn gallu siarad am ba gam i'w cymryd pe bai sefyllfa diogelu yn codi. Maent yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol ac yn sicrhau y cedwir cofnodion manwl. Mae'r staff yn dilyn cynlluniau gofal unigol y plant yn agos sy'n helpu i asesu risgiau'r gweithgareddau ar sail unigol. Maent yn darparu cymorth un i un, ac mae'r plant yn cael budd o'r gymhareb staffio uchel. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael profiad personol, ymatebol a chyson.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith yn gyson. Mae'r staff yn ymateb i anghenion unigol y plant ac yn eu cefnogi yn unol â'r rheini, gan addysgu strategaethau iddynt er mwyn eu helpu i reoleiddio eu hymddygiad a'u hemosiynau. Maent yn canmol, yn annog ac yn atgyfnerthu'r plant yn gadarnhaol fel mater o drefn. Mae'r staff yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn annog moesau da ac yn creu cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Dengys y staff ddiddordeb mawr yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd gefnogol iawn a thawel. Mae'r rhyngweithio bob amser yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif a gwirioneddol tuag at y plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn hyderus wrth ragweld pan fydd plentyn yn dechrau teimlo'n anesmwyth, yn orgynhyrfus neu'n bryderus. Er enghraifft, pan roedd plentyn yn dechrau dangos ymddygiadau a oedd yn dangos ei fod yn dechrau teimlo fel petai'n cael ei lethu, ymatebodd y staff drwy ei annog i symud oddi wrth y gweithgaredd a mynd i ardal wahanol.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu a'u chwarae eu hunain. Maent yn cefnogi dewisiadau'r plant yn llwyr ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni eu diddordebau. Mae'r staff yn sicrhau y gall y plant gael darpariaeth chwarae gynhwysol sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau gwerth chweil. Maent yn

dilyn cynlluniau unigol y plant ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd y plant i ddarparu gofal mewn amgylchedd ymlaciol a diogel oddi wrth cartref. Mae'r staff yn cefnogi anghenion y plant yn llawn ac yn darparu ar eu cyfer. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd eithriadol o'r strategaethau i gefnogi'r plant. Mae llawer o'r staff a'r plant yn mynychu'r un ysgol. O ganlyniad, mae'r staff yn adnabod y plant yn dda sy'n eu galluogi i ymateb i'w hanghenion a'u hoffterau yn effeithiol.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n dod i mewn drwy'r prif ddrws diogel ac mae'r staff yn defnyddio teclynnau i gael mynediad i ystafelloedd gwahanol. Mae'r staff yn sicrhau bod meddyginiaeth a deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siwr bod mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith, gydag arferion glanhau cyson sy'n lleihau unrhyw risg i iechyd y plant. Gwnaethant gwblhau archwiliad rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr arolygiad, gan eu galluogi i adolygu eu gweithdrefnau ymhellach.

Mae rhaglen o welliannau yn mynd rhagddo yn yr adeilad ar hyn o bryd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflawni asesiadau risg dyddiol ac yn gweithio gyda'r rheolwyr safle i sicrhau bod diogelwch y plant a'r staff yn flaenoriaeth. Maent yn cyfathrebu â'r rhieni yn rheolaidd fel bod pawb yn glir am unrhyw newidiadau, megis addasiadau i'r mynedfeydd a'r allanfeydd. Yn ystod cyfarfod bore dyddiol caiff pob mater iechyd a diogelwch ei drafod yn drylwyr â'r staff. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau tân a gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n aml yn benodol i blant unigol a grwpiau bach. Mae'r person â chyfrifoldeb yn arwain y cyfarfod â chyfraniadau gan staff a gwybodaeth allweddol sy'n cael ei harddangos yn glir ar fwrdd gwyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i gwblhau'r holl waith cynnal a chadw ar yr adeilad ac i wasanaethu cyfleustodau a chyfarpar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siwr bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer plant ac oedolion. Mae'r lleoliad yn cael ei redeg o ysgol anghenion arbennig a gafodd ei adeiladu'n bwrpasol a chanolfan adnoddau. Maent yn sicrhau bod ystafelloedd ymolchi, ardaloedd newid, ardaloedd awyr agored a meysydd chwarae ar gael i bob plentyn sy'n addas i oedrannau ac anghenion unigol y plant sy'n mynychu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried yn ofalus lle mae'r plant yn treulio eu hamser. Maent yn ystyried pa ystafelloedd ac ardaloedd y mae'r plant fwyaf cyfarwydd â nhw ac a fydd yn diwallu eu hanghenion orau. O ganlyniad, mae gan bron pob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall y plant ddefnyddio unrhyw un o'r adnoddau yn yr ysgol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau hyn o ansawdd da ac yn ysgogol i bob oedran a cham datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff y plant ofal mewn ystafelloedd sydd ag adnoddau addas i ddiwallu eu hanghenion unigol ac sy'n gyfarwydd iddynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn defnyddio adnoddau adeiladu y gwnaethant gael gafael arnynt yn annibynnol wrth iddynt gael gofal mewn ystafell a oedd yn gyfarwydd iawn iddynt. O ganlyniad i'r penderfyniadau a ystyriwyd gan y staff, caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hannibyniaeth mewn amgylchedd sy'n gyfarwydd iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llwyr. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Mae'r unigolyn cyfrifol sydd hefyd yn un o'r bobl â chyfrifoldeb, yn brofiadol ac mae ganddo weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei rannu'n effeithiol ag arweinwyr eraill, staff a rhanddeiliaid. Mae'r tîm yn cael budd o'r bartneriaeth gref â'r ysgol a'r prosesau sefydledig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion cywir ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae llawer o'r polisïau yn cael eu mabwysiadu o'r ysgol a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau dull cyson wrth ofalu am y plant ac fel rhan o'r arolygiad gwnaethom edrych ar sampl o'r polisïau rheoliadol hyn. Fodd bynnag, roedd rhai polisïau a dogfennau nad oeddent yn gwbl benodol i'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol. Cafodd y rhain eu hadolygu yn ystod yr arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol y mae'r lleoliad yn ei darparu.

Mae'r broses hunanwerthuso yn gryf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn myfyrio ar y gwasanaeth ac yn nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella, drwy ystyried barn staff, rhieni a'r plant. Maent yn sicrhau bod hyn yn broses parhaus o nodi agweddau cryf y lleoliad a'r rhai sydd angen eu datblygu ymhellach. Drwy'r broses werthuso hon maent wedi nodi ceisiadau gan y teuluoedd i ehangu'r ddarpariaeth. Maent yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion hyn a gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl. Er enghraifft, gwnaethant gynnal cynllun peilot yn ddiweddar, gan ddarparu sesiynau o'r enw 'aros a chwarae' i deuluoedd ac mae ganddynt gynlluniau i ddatblygu gweithdai ychwanegol i rieni.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn effeithiol ac maent wedi meithrin tîm o bobl hynod o effeithiol. Mae morâl y staff yn uchel ac mae diwylliant o barch, dealltwriaeth ac ethos cadarnhaol. Mae'r gymhareb oedolion a phlant yn seiliedig ar anghenion y plant, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff hyn ei chynnal neu y rhagorir arni. Maent yn sicrhau bod y staff yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod ganddynt dystysgrif Datgelu a Gwahardd gyfredol. Ni chedwir pob cofnod recriwtio yn y lleoliad, cedwir rhai yn electronig, ac mae'r person â chyfrifoldeb yn darparu datganiad i gadarnhau bod cofnodion recriwtio staff wedi cael eu gwirio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio anffurfiol rheolaidd i'r staff a sesiynau goruchwylio ac arfarnu mwy ffurfiol ar gyfer yr arweinwyr dynodedig. Maent yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd ar gyfer datblygiad y staff sy'n cael ei ddogfennu mewn matrics hyfforddiant staff. Maent yn sicrhau bod cyfnod sefydlu trylwyr ar gyfer staff newydd a system fentora i'w cenfogi. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr, sy'n hawdd mynd atynt. Mae'r staff yn hyderus ac yn frwdfrydig o ran eu gwaith ac maent yn teimlo bod gweithio fel rhan o'r tîm yn hynod werth chweil. Maent yn benderfynol o sicrhau bod y plant yn cael darpariaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r partneriaethau yn ardderchog. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu barn ac yn agored i wneud newidiadau er mwyn ysgogi gwelliant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu gyda rhieni yn werthfawr er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae ganddynt bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae adborth y rhieni yn eithriadol o gadarnhaol. Maent yn canmol y lleoliad yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael, gan dynnu sylw at y cydberthnasau cadarnhaol sydd gan eu plant â'r staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu polisïau a gweithdrefnau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r lleoliad yn llwyr. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/12/2023